



# CWTSH MYRDDIN

*Rhifyn – 22.02.2019*

## **Taith astudiaethau Crefyddol i'r Ganolfan Fwdhaidd yng Nghaerdydd**

Dydd Llun y 4ydd o Chwefror fe aeth criw o ddisgyblion blwyddyn 9 ac 11eg ar daith Astudiaethau Crefyddol i Ganolfan Fwdhaidd yng Nghaerdydd. Cawsom groeso cynnes a chael ein tywys i ddwy ystafell. Ar ôl tynnu ein hesgidiau cawsom gyflwyniad byr i hanes y grefydd a chyfle i holi cwestiynau. I gloi'r sesiwn gwnaethom ychydig o fyfrio sy'n rhan allweddol o'r grefydd Fwdhaidd. Gwnaeth hyn i bawb deimlo wedi ymlacio ac yn dawel ein meddyliau. Cawsom gyfle i gael cinio yng nghanol y ddinas cyn troi nôl, am adre. Roeddem wedi mwynhau'r daith yn fawr.



*Adroddiad gan ferched dosbarth 9-5*

## **Tryweryn**

Braf oedd croesawu Emyr Llewelyn Jones i'r ysgol i siarad gyda disgyblion Blwyddyn 8 am hanes Tryweryn. Siaradodd yn angerddol am ei brofiadau yn ymgyrchu a phrotestio yn erbyn boddi Capel Celyn. Profiad gwerthfawr iawn! Diolchwn iddo am ddod â'r hanes yn fyw i'n disgyblion.

## **Diwrnod Miwsig Cymru**

Ar ddiwrnod **Miwsig Cymru** aeth aelodau o gorau'r ysgol i rai o gartrefi henoed y dref i gyflwyno copi o gryno ddisg Dathlu Deugain yr ysgol er mwyn i drigolion y cartrefi allu gwrandio ar y gerddoriaeth

## **BAG2SCHOOL**

Diolch yn fawr i bawb am eich cyfraniadau tuag at ein hymgyrch ddiweddar – casglwyd gwerth £304 i'r ysgol. Gwerthfawrogwn eich cyfraniad yn fawr.

## Taith yr Adran Gerdd i weld Lion King yn Llundain

Ers blynyddoedd bellach, bu'r Adran Gerdd yn trefnu taith i ddisgyblion yr ysgol i'r West End i fwynhau bwrlwm dawnsio a chanu'r theatr. Eleni, ar ddydd Mercher, 30ain o Ionawr, daeth yn amser unwaith eto i oddeutu 150 o ddisgyblion deithio i Lundain i wyllo un o'r sioeau cerdd fwyaf poblogaidd a gyfansoddwyd erioed sef The Lion King. Yn blygeiniol, am chwarter wedi chwech y bore, gadawodd tri llond bws o ddisgyblion llawn cyffro faes parcio Halfords. Gyda'r bysiau'n llawn bwrlwm, roedd yn amlwg fod pawb ar bigau'r drain i weld y sioe gerdd hon yn fyw ar lwyfan Theatr y Lyceum. Wedi cyrraedd Covent Garden, cawsom awr a hanner o ryddid i chwilio am ginio ac ymweld ag ambell siop fan hyn a fan draw. Wedi profi prysurdeb y ddinas, cerddom draw i'r theatr ac aros, yn gyffro i gyd, i glywed llinell agoriadol adnabyddus y sioe. Ni chawsom ein siomi. Cawsom ein hudo o'r olygfa gyntaf wrth i anifeiliaid o bob lliw a llun ddawnsio a chanu o'n blaenau. Yn wir, ar sawl achlysur, teimlem fel ein bod mewn jwngl go iawn ochr yn ochr â'r creaduriaid. Mae'n siŵr y byddwn ni gyd yn cofio'r gwisgoedd anhygoel am flynyddoedd i ddod. Yn wir, roedd y cynhyrchiad cyfan yn fywiog ac egniol tu hwnt gyda'r gân 'Can you feel the Love tonight' yn aros yn y cof. Wrth i'r llen ddisgyn, a ninnau'n hanner gobeithio y byddai'r cast yn ail-ymddangos o rywle i ganu un gân arall, rhaid oedd ymlwybro i gyfeiriad y bysys a theithio tua'r gorllewin. Toc wedi un ar ddeg cyrhaeddodd ben y daith i'r union fan lle dechreuodd ein hantur ben bore. Wrth gwrs, ni fyddai'r daith hon wedi digwydd o gwbl oni bai am waith trefnu ac ymrwymiad staff yr Adran Gerdd, ac felly dymuniad pob un ohonom a brofodd y wefr yn Llundain yw diolch iddynt hwy am drefnu ymweliad cofiadwy arall â'r West End.

*gan Anell Dyfri Bl 13*

## Cofio Comin Greenham

Nos Lun yr 11eg o Chwefror fe aethom ni fel criw dosbarth Cymraeg Blwyddyn 12 i Festri Capel y Tabernacl yng Nghaerfyrddin i wrando ar sgwrs gan ddau aelod o gymdeithas y Cymod Caerfyrddin sef Guto Prys ap Gwynfor a Sian ap Gwynfor. Trafodwyd eu profiadau nhw a'u rolau blaenllaw ym mhrotestiadau Comin Greenham yn yr 80au. Roedd y sgwrs yn berthnasol iawn i ni fel dosbarth gan ein bod yn astudio cerdd gan Menna Elfyn ar gyfer ein cwrs 'Lefel A' sydd yn trafod ei phrofiadau hi yn ymgyrchoedd Comin Greenham. Mae'r gerdd 'Sul y Mamau yn Greenham' yn adlewyrchu teimladau'r protestwyr, sef gwragedd yn bennaf, wrth iddynt fynd ati a gosod pebyll tu allan i'r comin a gwrthdystio'n ddi-drais yn erbyn yr arfau niwclear a oedd yn cael eu storio yno. Roedd medru clywed hanesion a straeon diddorol gan Guto a Siân ap Gwynfor yn werthfawr iawn i ni er mwyn medru rhoi'r digwyddiad mewn i bersbectif personol a fydd yn help enfawr i ni ar gyfer astudio'r gerdd. Roedd y cyflwyniad yn hynod o ddiddorol ac yn agoriad llygad anferth i ddangos bod yn rhaid i ni frwydro dros yr hyn rydym am weld neu newid yn ein bywydau. Adroddiad gan Lois Campbell, Ffion Gibbon ac Elin Fflur Jones Bl 12

## YMGYRCH CASGLU SBWRIEL

Ar fore braf y 13eg o Chwefror, aeth gwirfoddolwyr o flwyddyn 7 ac aelodau'r pwyllgor eco ati i gasglu sbwriel oddi ar dir yr ysgol. Mae'r ysgol bellach yn ysgol ddi-blastig; o ganlyniad, felly, hyfryd oedd gweld mae ond ychydig o sbwriel a gasglwyd yn y pendraw gan y disgyblion. Y peth pwysig nawr yw bod pawb yn yr ysgol yn parhau i ddefnyddio poteli aml dro a defnyddio'r biniau cywir ar gyfer eu sbwriel. Diolch i bawb am wirfoddoli!



## Offer TG

Cyfraniad ariannol i brynu **'Chromebooks'** Diolch i Mr Robert George o gwmni RG Fencing Ltd am ei gyfraniad hael tuag at brynu chromebooks i'r ysgol. Byddant o gymorth mawr. Diolch hefyd i gwmni Castell Howell, Acstro Ltd a Gwasg Gomer am eu cyfraniadau hwythau i apêl pynu Chromebooks yr ysgol.

## Y Gadair Wag



Ar brynhawn y 14eg o Chwefror, fe aethom ni fel criw Cymraeg Blwyddyn 12 i'r Egin yng Nghaerfyrddin i wyllo'r sioe farddoniaeth 'Y Gadair Wag.' Sioe amlgyfrwng ydoedd a oedd yn adrodd hanes y bardd Hedd Wyn; testun priodol iawn i ni wrth i ni astudio'r ffilm fel rhan o'n cwrs eleni. Roedd hi'n sioe hynod ddiddorol a oedd yn defnyddio barddoniaeth y bardd ei hun a beirdd eraill i roi cip olwg i mewn i fywyd Hedd Wyn, a gwir effaith ei golled ar ei deulu a'r Cymry hyd heddiw. Rhaid dweud ein bod ni oll wedi mwynhau, a hoffwn ddiolch i'r adran Gymraeg am drefnu'r trip i ni. Adroddiad gan Alaw Grug Evans Bl12

## Newyddion Chwaraeon

Trnarnaint Hoci Brienne blwyddyn 8 Bro Myrddin A - pencampwyr y Sir (1af yn nhwrnament A) Bro Myrddin B 4ydd - yn mhwrnament B

Llongyfarchiadau i Aled Llewellyn-Jones ar ei llwyddiant diweddar - 1af yn yr adran lau a gorffen yn y 5ed safle ym Mhencampwriaethau'r Gaeaf yn Draycote Water.

Llongyfarchiadau i Efa Jones a Cadi Evans o flwyddyn 13 ar gael eu dewis i garfan pêl-rwyd Gorllewin Cymru dan 21 oed ac i Lucy Davies ac Awen Gower ar gael eu dewis i'r garfan dan 17 oed.

Llongyfarchiadau i dîm pêl droed merched Dan15 @YGGBM perfformiad ardderchog erbyn ysgol Cwmtawe. Ennill 6-0! Edrych ymlaen at rownd nesaf y cwpan!

Llongyfarchiadau i Efa Jones a Cadi Evans blwyddyn 13 ar gael eu dewis i garfan pêl-rwyd Gorllewin Cymru dan 21 oed a Lucy Davies ac Awen Gower o fl 10 ar gael eu dewis i garfan pêl-rwyd Gorllewin Cymru dan 17 oed. Pencampwriaeth timoedd golff leuenctid Prydain.

Llongyfarchiadau i Iestyn McAvoy bl.13 a Scott Jones (cyn-ddisgybl) sydd newydd ddychwelyd o Bortiwgal ar ôl bod yn cynrychioli Tîm Clwb Golff Caerfyrddin a Chymru ym mhencampwriaeth timoedd leuenctid Prydain. Roedd Megan Thomas bl.11 hefyd yn rhan o'r sgwad. Llwyddodd y tîm i orffen yn y 5ed safle (tîm gorau o Gymru).

Llongyfarchiadau mawr i Betsan Thomas am ei llwyddiant diweddar yng Ngwobrau Chwaraeon Tref Caerfyrddin. Mae Betsan wedi ennill y wobr am ei chyfraniad a'i llwyddiant ar y cae hoci dros y flwyddyn ddiwethaf. Da iawn ti Betsan